# LC1221

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

## Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2006

Mae'r Gorchymyn yma’n pennu'r dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid i awdurdod gwerth gorau (fel y mae wedi’i ddiffinio gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1999) gyhoeddi cynllun gwella sydd wedi’i baratoi yn sgil adolygiad gwerth gorau ar ei swyddogaethau. Y dyddiad sydd wedi’i bennu yw 30 Tachwedd yn y flwyddyn y mae’r cynllun yn cyfeirio ati. Mae’n rhaid paratoi cynllun gwella ar gyfer pob blwyddyn ariannol ac mae’n rhaid anfon copïau o adroddiad archwilydd ynglyn â'r cynllun at yr awdurdod, at Archwilydd Cyffredinol Cymru ac, os bydd angen hynny, at y Cynulliad Cenedlaethol. Mae Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dadansoddiadau Awdurdodau Cyfan a Chynlluniau Gwella) (Cymru) 2002 a Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dadansoddiadau Awdurdodau Cyfan a Chynlluniau Gwella) (Cymru) (Diwygio) 2004 wedi’u dirymu.

## Rheol Sefydlog 11.7

Does dim pwyntiau wedi’u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

## Sylwadau

Dim.

**David Melding AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**14 Chwefror 2006**